OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1943 (Cy.210)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r adroddiad y mae'n ofynnol i'r pennaeth ei anfon at rieni a disgyblion sy'n oedolion ym mhob blwyddyn ysgol (rheoliad 3 a'r Atodlen) a'r wybodaeth ychwanegol y caiff rhieni disgyblion cofrestredig, sydd yn cael eu hasesu yn unrhyw gyfnod allweddol, ofyn amdani mewn perthynas â lefelau cyraeddiadau'r disgybl mewn pynciau perthnasol (rheoliad 4). Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli, gyda newidiadau, darpariaethau mewn perthynas ag adroddiadau pennaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion a gafwyd gynt yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") fel y'u diwygiwyd. Cafodd darpariaethau eraill Rheoliadau 2004 eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011.

Mae Rheoliad 5 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r pennaeth drefnu ei bod ar gael yn yr adroddiadau a roddir i ddisgyblion sy'n ymadael yr ysgol. Mae Rheoliad 6 yn nodi cyfyngiadau penodol ar ddarparu gwybodaeth.

Pan fo angen hynny, rhaid i unrhyw ddogfen neu wybodaeth, y mae'n ofynnol iddi fod ar gael o dan y Rheoliadau, gael ei chyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg neu i iaith arall neu gael ei chynhyrchu mewn Braille neu ar dâp sain (rheoliad 7).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1943 (W.210)

# EDUCATION, WALES

## The Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make provision as to the report the head teacher is required to send to parents and adult pupils each school year (regulation 3 and the Schedule) and the additional information parents of registered pupils who are assessed in any key stage may request relating to the pupil's levels of achievements in relevant subjects (regulation 4). These Regulations replace with changes provisions relating to head teacher's reports to parents and adult pupils formerly contained in the Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004 ("the 2004 Regulations") as amended. The other provisions of the 2004 Regulations have been revoked and replaced by the Pupil Information (Wales) Regulations 2011.

Regulation 5 prescribes the information the head teacher must make available in the reports given to school leavers. Regulation 6 sets out certain restrictions on the provision of information.

Where necessary, any document or information required to be made available under the Regulations must be translated into English or Welsh or another language or produced in Braille or audio tape (regulation 7).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1943 (Cy.210)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Gorffennaf 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *4 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 408 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos yn ddymunol i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1996 p.56. Mae adran 408 wedi ei diwygio gan baragraff 30 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44) ac Atodlen 8 iddi, paragraffau 57 a 106 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) ac Atodlen 31 iddi, paragraff 57 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21), Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22) a Rhan 7 o Atodlen 16 iddi, a chan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1943 (W.210)

# EDUCATION, WALES

## The Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *29 July 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *4 August 2011* |
| *Coming into force* | *1 September 2011* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 408 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**) and now vested in them(**2**), and after consulting with those persons with whom consultation appeared to the Welsh Ministers to be desirable pursuant to section 408(5) of the Education Act 1996, make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011 and they come into force on 1 September 2011.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 1996 c.56. Section 408 was amended by paragraph 30 of Schedule 7 and Schedule 8 to the Education Act 1997 (c.44), paragraphs 57 and 106 of Schedule 30, and Schedule 31, to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31), paragraph 57 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 (c.21), Schedule 21 of the Education Act 2002, Schedule 12 and Part 7 of Schedule 16 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c.22) and by S.I. 2010/1158.

(**2**) The functions of the Secretary of State under these sections were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

**Dehongli**

**2**.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

"asesiad athrawon" ("*teacher assessment*") yw asesiad gan athrawon yn unol â'r asesiadau statudol;

ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw'r trefniadau asesu hynny a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir o dan y canlynol—

(i) adran 108(2)(b)(iii) o Ddeddf 2002(**1**) o ran disgyblion sydd yn y cyfnod sylfaen; neu

(ii) adran 108(3)(c) o Ddeddf 2002(**2**) o ran disgyblion mewn cyfnod allweddol;

ystyr "canlyniad" ("*result*"), o ran unrhyw asesiad o dan yr asesiadau statudol, yw canlyniad yr asesiad fel y mae wedi ei benderfynu a'i gofnodi'n unol â'r trefniadau hynny;

ystyr "cofnod presenoldeb" ("*attendance record*") yw cofnod o bresenoldeb disgybl mewn ysgol yn ôl y gofrestr bresenoldeb a gedwir yn unol ag adran 434 o Ddeddf Addysg 1996 a Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**3**);

ystyr "cyfnod allweddol" ("*key stage*") yw unrhyw un o'r cyfnodau a nodir ym mharagraffau (b) i (d) yn adran 103(1) o Ddeddf 2002, ac mae cyfeiriad at gyfnod allweddol dau, tri neu bedwar yn gyfeiriad at y cyfnodau a nodir yn eu trefn yn y paragraffau (b) i (d) hynny;

mae "cyfnod sylfaen" i'w ddehongli'n unol â "*foundation phase*" yn adran 102 o Ddeddf 2002;

ystyr "cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd" ("*approved relevant qualification*") yw cymhwyster o fewn ystyr adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997(**4**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**5**);

ystyr "y dogfennau cysylltiedig" ("*the associated documents*") yw dogfennau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n nodi lefelau cyrhaeddiad, targedau cyrhaeddiad a rhaglenni

(**1**) Mae isadran (2) o adran 108 wedi ei diwygio gan adran 21(1) a (7)(a) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5).

(**2**) Mae isadran (3) o adran 108 wedi ei diwygio gan adran 21(1) a (7)(b) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 a pharagraffau 11 a 15 o'r Atodlen iddo. Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2915 (Cy.254)) a Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1394 (Cy.108)) yw'r gorchmynion cyfredol.

(**3**) O.S. 2010/1954 (Cy.187).

(**4**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

(**5**) 2002 p.32.

**Interpretation**

**2**.—(1) In these Regulations—

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002(**1**);

"approved relevant qualification" ("*cymhwyster allanol a gymeradwywyd*") is a qualification within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(**2**);

"area of learning" ("*maes dysgu*") has the meaning given to it in the "Framework for Children's Learning for 3 to 7 year-olds in Wales"(**3**) setting out the desirable outcomes and educational programmes in respect of each of the areas of learning and which has effect by virtue of an order made under section 108(2) of the 2002 Act(**4**);

"the associated documents" ("*y dogfennau cysylltiedig*") means the documents published by the Welsh Ministers, setting out levels of attainment, attainment targets and programmes of study in relation to the relevant subjects, which documents have effect by virtue of the orders made under section 108(3)(a) and (b) of the 2002 Act for those subjects for the time being in force;

"attendance record" ("*cofnod presenoldeb*") means the record of a pupil's school attendance contained in the attendance register kept in accordance with section 434 of the Education Act 1996 and the Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010(**5**);

"DEWi" ("*Menter Cyfnewid Data Cymru*") means the data exchange Wales initiative database maintained and published by the Welsh Ministers(**6**);

"education welfare officer" ("*swyddog lles addysg*") means any person who is employed by a local authority, and whose duties include securing the regular attendance at school of pupils of compulsory school age;

"foundation phase" ("*cyfnod sylfaen*") is to be construed in accordance with section 102 of the 2002 Act;

(**1**) 2002 c.32.

(**2**) 1997 c.44. Sub-section (5) of section 30 was substituted by paragraph 15(6) of Schedule 12 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009.

(**3**) ISBN. 9780750444293.

(**4**) The Education (National Curriculum) (Foundation Stage) (Wales) Order 2008 (S.I. 2008/1732 (W.169)) as amended by the Education (National Curriculum) (Foundation Stage) (Wales) (Amendment) Order 2008 (S.I. 2008/2629 (W.229)).

(**5**) S.I. 2010/1954 (W.187).

(**6**) The website address for DEWi is www.dataexchangewales.org.uk.

astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol, ac y mae effaith i'r dogfennau hynny yn rhinwedd y gorchmynion a wnaed o dan adran 108(3)(a) a (b) o Ddeddf 2002 ar gyfer y pynciau hynny ac sydd, am y tro, mewn grym;

ystyr "FfCC" ("*NQF*") yw'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol a ffurfir gan gymwysterau o fewn yr ystyr a roddir i "relevant qualifications" gan adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997 ac sy'n cael eu dyfarnu neu eu dilysu gan gorff sy'n cael ei gydnabod gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(1)(e) o'r Ddeddf honno mewn perthynas â'r cymwysterau:

ystyr "y gofrestr" ("*the register*") yw'r gofrestr a gynhelir ac a gyhoeddir gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau yn unol ag adran 148 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**);

ystyr "lefel CC" ("*NC level*") yw lefel cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol a ddisgrifir yn y dogfennau cysylltiedig;

ystyr "lefel FfCC" ("*level NQF*") yw'r lefel y mae'r cymwysterau wedi eu hachredu arni o fewn y FfCC;

mae i "maes dysgu" ("*area of learning*") yr un ystyr ac a roddir iddo yn y ddogfen "Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru"(**2**) sy'n nodi'r deilliannau dymunol a'r rhaglenni addysgol mewn cysylltiad â phob un o'r meysydd dysgu ac y mae effaith iddi yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 108(2) o Ddeddf 2002(**3**);

ystyr "Menter Cyfnewid Data Cymru" ("*DEWi*") yw cronfa ddata Menter Cyfnewid Data Cymru sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan Weinidogion Cymru(**4**);

ystyr "meysydd dysgu eraill" ("*other areas of learning*") yw—

(i) datblygiad o ran y Gymraeg;

(ii) gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd;

(iii) datblygiad corfforol; a

(iv) datblygiad creadigol;

ystyr "meysydd dysgu perthnasol" ("*relevant areas of learning*") yw—

(i) datblygiad mathemategol;

(**1**) 2009 p.22.

(**2**) ISBN. 9780750444293.

(**3**) Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1732 (Cy.169)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru)(Diwygio) 2008 (O.S. 2008/2629 (Cy.229)).

(**4**) Y wefan ar gyfer Menter Cyfnewid Data Cymru yw www.dataexchangewales.org.uk.

"key stage" ("*cyfnod allweddol*") means any of the periods set out in paragraphs (b) to (d) of section 103(1) of the 2002 Act, and a reference to the second, third or fourth key stage is a reference to the periods set out respectively in the said paragraphs (b) to (d);

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") means a community, foundation or voluntary school or a community or foundation special school (other than one established in a hospital) and, unless the context otherwise requires, a nursery school maintained by a local authority or a pupil referral unit;

"NC level" ("*lefel CC*") means the National Curriculum level of attainment described in the associated documents;

"NQF" ("*FfCC*") means the National Qualifications Framework comprising relevant qualifications within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997 which are awarded or authenticated by a body which is recognised by the Welsh Ministers under section 30(1)(e) of that Act in respect of the qualifications;

"NQF level" ("*lefel FfCC*") means the level to which qualifications are accredited within the NQF;

"other areas of learning" ("*meysydd dysgu eraill*") means—

(i) Welsh language development;

(ii) knowledge and understanding of the world;

(iii) physical development; and

(iv) creative development;

"the register" ("*y gofrestr*") means the register maintained and published by the Office of Qualifications and Examinations Regulation pursuant to section 148 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**1**);

"relevant areas of learning" ("*meysydd dysgu perthnasol*") means—

(i) mathematical development;

(ii) personal and social development, well-being and cultural diversity; and

(iii) language, literacy and communication skills;

(**1**) 2009 c.22.

(ii) datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; a

(iii) sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;

ystyr "pynciau perthnasol" ("*relevant subjects*"), o ran asesiadau athrawon ac unrhyw gyfnod allweddol, yw'r holl bynciau hynny y mae'n ofynnol asesu'r disgybl neu'r disgyblion dan sylw mewn cysylltiad â hwy drwy asesiadau athrawon yn y cyfnod allweddol hwnnw yn unol â'r asesiadau statudol;

ystyr "swyddog lles addysg" ("*education welfare officer*") yw unrhyw berson a gyflogir gan awdurdod lleol, ac y mae ei ddyletswyddau'n cynnwys sicrhau bod disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn bresennol yn rheolaidd yn yr ysgol;

ystyr "uned neu gredyd" ("*unit or credit*"), o ran cymhwyster, yw modiwl neu ran o gwrs sy'n arwain at y cymhwyster hwnnw y gellir, pan fo wedi ei gwblhau neu wedi ei chwblhau yn llwyddiannus, ei gyfrif neu ei chyfrif ynghyd â modiwlau neu rannau eraill tuag at ennill y cymhwyster hwnnw; ac

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig (nad yw'n un a sefydlwyd mewn ysbyty) ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod lleol neu uned cyfeirio disgyblion.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at lefelau cyrhaeddiad a thargedau cyrhaeddiad yn gyfeiriadau at y lefelau a thargedau a nodir yn y dogfennau cysylltiedig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at bennaeth neu gorff llywodraethu, mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yn gyfeiriad at yr athro neu'r athrawes sydd â gofal dros yr uned cyfeirio disgyblion.

**Adroddiad pennaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion**

**3**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) rhaid i bennaeth pob ysgol a gynhelir, drefnu bod adroddiad ysgrifenedig ar gael, bob blwyddyn ysgol, yn unol â'r rheoliad hwn, sy'n cynnwys yr wybodaeth a ragnodir yn y rheoliad hwn.

(2) Dyma'r personau rhagnodedig y mae'n rhaid trefnu bod yr adroddiad ar gael iddynt—

"relevant subjects" ("*pynciau perthnasol*") means, in relation to teacher assessment and any key stage, all those subjects in respect of which the pupil or pupils concerned are required to be assessed by teacher assessment in that key stage in accordance with the statutory assessments;

"result" ("*canlyniad*") in relation to any assessment under the statutory assessments means the result of the assessment as determined and recorded in accordance with those arrangements;

"statutory assessments" ("*asesiadau statudol*") means such assessment arrangements as are specified by the Welsh Ministers in an order made under—

(i) section 108(2)(b)(iii) of the 2002 Act(**1**) in relation to pupils in the foundation phase; or

(ii) section 108(3)(c) of the 2002 Act(**2**) in relation to pupils in a key stage;

"teacher assessment" ("*asesiad athrawon*") means assessment by a teacher in accordance with the statutory assessments; and

"unit or credit" ("*uned neu gredyd*"), in relation to a qualification, means a module or part of a course leading to that qualification which, when successfully completed, can be counted together with other modules or parts towards obtaining that qualification.

(2) In these Regulations references to levels of attainment and attainment targets are references to the levels and targets set out in the associated documents.

(3) In these Regulations, unless the context otherwise requires, any reference to a head teacher or governing body is, in relation to a pupil referral unit, a reference to the teacher in charge of the pupil referral unit.

**Head teacher's report to parents and adult pupils**

**3**.—(1) Subject to paragraph (5) the head teacher of every maintained school must make available, each school year, in accordance with this regulation a report in writing containing the information prescribed in this regulation.

(2) The prescribed persons to whom the report must be made available are—

(**1**) Sub-section (2) of section 108 was amended by section 21(1) and (7)(a) of the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5).

(**2**) Sub-section (3) of section 108 was amended by section 21(1) and (7)(b) of, and paragraphs 11 and 15 of the schedule to, the Education (Wales) Measure 2009. The current orders are the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004 (S.I. 2004/2915 (W.254)) and the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1394 (W.108)).

(a) pob disgybl sy'n oedolyn; neu

(b) rhiant pob disgybl sy'n oedolyn (os yw'r pennaeth o'r farn bod amgylchiadau arbennig sy'n ei gwneud yn briodol); neu

(c) rhiant pob disgybl yn achos pob disgybl arall a gofrestrwyd yn yr ysgol.

(3) Rhaid i'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth am gyflawniadau addysgol y disgybl neu'r disgybl sy'n oedolyn y trefnir bod yr adroddiad ar gael iddo neu i'w riant a'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r disgybl hwnnw a nodir—

(a) ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Atodlen, pan fo'r disgybl hwnnw yn y cyfnod sylfaen;

(b) ym mharagraffau 2, 3 a 4 o Ran 1 o'r Atodlen a Rhan 2 o'r Atodlen, pan fo'r disgybl hwnnw yng nghyfnod allweddol dau, tri a phedwar;

(c) yn Rhan 3 o'r Atodlen pan gofnodwyd enw'r disgybl hwnnw ar gyfer unrhyw gymwysterau perthnasol a gymeradwywyd ar lefel FfCC 3 neu'n uwch na hynny; ac

(ch) yn Rhan 4 o'r Atodlen.

(4) Yn achos y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol, rhaid cynnwys yn yr adroddiad, yr wybodaeth ysgol gymharol ddiweddaraf mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol mewn asesiadau statudol ar gyfer y cyfnod sylfaen a chyfnodau allweddol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar Fenter Cyfnewid Data Cymru.

(5) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal yr wybodaeth a bennir ym mharagraffau (3) a (4) rhag cael ei chynnwys mewn mwy nag un adroddiad ar yr amod, yn ddarostyngedig i baragraff (7), bod yn rhaid i'r pennaeth anfon yr wybodaeth honno bob blwyddyn ysgol drwy'r post neu fel arall cyn diwedd tymor yr haf.

(6) Rhaid i'r cyfnod, y mae adroddiad sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth a bennir ym mharagraff (3) yn ymwneud ag ef, ddechrau ym mhob achos gyda'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) y dyddiad y derbyniwyd y disgybl i'r ysgol; neu

(b) diwedd y cyfnod yr oedd yr adroddiad diwethaf ar faterion o'r fath a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn yn ymwneud ag ef.

(7) Pan na fo unrhyw un o'r manylion sy'n angenrheidiol i ddarparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (8) wedi dod i law'r pennaeth tan ar ôl diwedd tymor yr haf, rhaid i'r pennaeth drefnu bod y wybodaeth honno ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol a sut bynnag heb fod yn hwyrach na'r 30 Medi canlynol.

(8) Dyma'r wybodaeth—

(a) manylion y cymwysterau perthnasol a gymeradwywyd ac a enillwyd gan ddisgybl; a

(a) each adult pupil;

(b) the parent of each adult pupil (if the head teacher considers there to be special circumstances which make it appropriate); or

(c) the parent of each pupil in the case of all other pupils registered at the school.

(3) The report must contain the information about the educational achievements of the pupil or adult pupil to whom or to whose parent the report is made available and the information relating to that pupil set out—

(a) in paragraph 1 of Part 1 of the Schedule, where that pupil is in the foundation phase;

(b) in paragraphs 2, 3, and 4 of Part 1 of the Schedule and Part 2 of the Schedule, where that pupil is in the second, third and fourth key stages;

(c) in Part 3 of the Schedule, where that pupil was entered for any approved relevant qualifications at NQF level 3 or above; and

(d) in Part 4 of the Schedule.

(4) In the case of the pupils registered at the school there must be included in the report the most recent school comparative information in relation to the school's performance in statutory assessments for the foundation phase and key stages published by the Welsh Ministers on DEWi.

(5) Nothing in this regulation prevents the information specified in paragraphs (3) and (4) being contained in more than one report provided that, subject to paragraph (7), the head teacher must each school year send such information by post or otherwise before the end of the summer term.

(6) The period to which a report containing any information specified in paragraph (3) relates must in all cases begin with the later of—

(a) the pupil's admission to the school; or

(b) the end of the period to which the last report on such matters made pursuant to these Regulations related.

(7) Where any of the particulars necessary to provide the information specified in paragraph (8) are not received by the head teacher until after the end of the summer term, the head teacher must make available such information as soon as practicable and in any event not later than the following 30 September.

(8) The information is—

(a) the details of approved relevant qualifications achieved by a pupil; and

(b) yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 1 a 2(4) o'r Atodlen.

(9) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr "disgybl sy'n oedolyn" yw disgybl 18 oed neu drosodd ar yr adeg y trefnir bod yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ar gael ac nad yw'n bwriadu ymadael â'r ysgol erbyn diwedd y flwyddyn ysgol.

**Yr wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid trefnu iddi fod ar gael**

**4**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), yn achos disgybl cofrestredig sydd mewn ysgol a gynhelir ac mewn unrhyw gyfnod allweddol ac sydd wedi ei asesu'n unol â'r asesiadau statudol yn y cyfnod allweddol hwnnw, rhaid i'r pennaeth, os gofynnir iddo wneud hynny gan riant y disgybl yn ysgrifenedig, drefnu bod lefelau cyrhaeddiad ac unrhyw ganlyniadau eraill y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad mewn unrhyw bwnc perthnasol ar gael i'r rhiant yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â chais o'r fath cyn pen pymtheng niwrnod ysgol ar ôl i'r pennaeth ei gael.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn y paragraff hwnnw eisoes wedi bod ar gael i riant y disgybl yn unol â'r Rheoliadau hyn.

**Adroddiad disgybl sy'n ymadael yr ysgol**

**5**.—(1) Rhaid i bennaeth pob ysgol a gynhelir drefnu bod adroddiad sy'n cynnwys yr wybodaeth y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (2) ar gael, yn unol â pharagraffau (3) a (4), i unrhyw ddisgybl sydd wedi peidio â bod yn ddisgybl o oedran ysgol gorfodol ac sy'n bwriadu ymadael â'r ysgol neu sydd wedi ymadael â'r ysgol.

(2) Mae'r wybodaeth yn cynnwys y canlynol—

(a) enw'r disgybl;

(b) ysgol y disgybl;

(c) manylion unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd ac unrhyw uned neu gredyd tuag at gymhwyster o'r fath a ddyfarnwyd i'r disgybl; ac

(ch) manylion byr am gynnydd y disgybl a'i gyflawniadau mewn pynciau (ac eithrio'r rhai lle'r enillodd unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd neu unrhyw uned neu gredyd tuag at gymhwyster o'r fath) ac mewn unrhyw weithgareddau sy'n rhan o'r cwricwlwm ysgol, yn ystod y flwyddyn ysgol yr ymadawodd y disgybl yr ysgol ynddi neu ar ei diwedd.

(3) Rhaid i'r rhan o'r adroddiad y mae'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraffau (a), (b) ac (ch) o baragraff (2) ar gael ynddi, ddarparu ar gyfer llofnod y disgybl, a rhaid i'r rhan honno a'r rhan o'r adroddiad y

(b) the information referred to in paragraphs 1 and 2(4) of the Schedule.

(9) For the purposes of this regulation "adult pupil" means a pupil aged 18 or over at the time the report referred to in paragraph (1) is made available and who is not proposing to leave the school by the end of the school year.

**Additional information to be made available**

**4**.—(1) Subject to paragraph (3), in the case of a registered pupil at a maintained school in any key stage who is assessed in accordance with the statutory assessments in that key stage, the head teacher must if requested in writing by the pupil's parent make available to the parent, in accordance with this regulation, the pupil's levels of attainment and any other results in each attainment target in any relevant subject.

(2) The head teacher must comply with such a request within fifteen school days of its receipt by that person.

(3) Paragraph (1) does not apply if the information referred to in that paragraph has previously been made available to the pupil's parent pursuant to these Regulations.

**School leaver's report**

**5**.—(1) The head teacher of every maintained school must make available to any pupil who has ceased to be of compulsory school age and is proposing to leave or has left the school a report containing the information referred to in paragraph (2) in accordance with paragraphs (3) and (4).

(2) The information consists of—

(a) the pupil's name;

(b) the pupil's school;

(c) the details of any approved relevant qualification and any unit or credit towards such a qualification awarded to the pupil; and

(d) brief particulars of the pupil's progress and achievements in subjects (other than those in which the pupil has achieved any approved relevant qualification or any unit or credit towards such a qualification) and in any activities forming part of the school curriculum, in the school year during or at the end of which the pupil left the school.

(3) The part of the report in which the information referred to in sub-paragraphs (a), (b) and (d) of paragraph (2) is made available must provide for signature by the pupil, and both that part and the part

mae'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraffau (a) ac (c) o baragraff (2) ar gael ynddi, ill dau ddarparu ar gyfer llofnod gan athro sy'n gyfarwydd â'r disgybl yn ogystal â chyflawniadau'r disgybl hwnnw.

(4) Rhaid trefnu bod yr adroddiad ym mharagraff (1) ar gael i'r disgybl heb fod yn hwyrach na'r 30 Medi sy'n dilyn diwedd y flwyddyn ysgol yr ymadawodd y disgybl yr ysgol ynddi neu ar ei diwedd.

**Cyfyngiadau ar ddarparu gwybodaeth**

**6**.—(1) Mae darpariaethau paragraff (2) yn gymwys i'r wybodaeth a bennir ym mharagraff 6(1) o'r Atodlen.

(2) Nid oes dim sydd yn rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i drefnu bod unrhyw wybodaeth ar gael—

(a) sy'n deillio oddi wrth, neu sy'n cael ei darparu gan neu ar ran, unrhyw berson ac eithrio unrhyw un o'r canlynol—

(i) un o gyflogeion yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;

(ii) yn achos ysgol wirfoddol a gynorthwyir, athro neu athrawes neu weithiwr cyflogedig arall yn yr ysgol (gan gynnwys seicolegydd addysgol a gymerwyd ymlaen gan y corff llywodraethu o dan gontract am wasanaethau);

(iii) swyddog lles addysg;

(iv) y person sy'n gofyn am y datgeliad; neu

(b) i'r graddau y byddai'n datgelu, neu y byddai'n galluogi rhywun i gasglu, pwy yw person (ac eithrio'r disgybl y mae'r wybodaeth honno'n ymwneud ag ef neu berson a grybwyllwyd yn is-baragraff (a)) fel ffynhonnell yr wybodaeth neu fel person y mae'r wybodaeth honno'n berthnasol iddo.

(3) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i drefnu bod unrhyw wybodaeth ar gael—

(a) i'r graddau y byddai ei datgelu yn debygol, ym marn y pennaeth, o achosi niwed difrifol i iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu gyflwr emosiynol y disgybl y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef neu unrhyw berson arall;

(b) i'r graddau y byddai, ym marn y pennaeth, yn berthnasol i'r cwestiwn a yw'r disgybl y mae'n ymwneud ag ef yn destun, neu wedi bod yn destun, cam-drin plant neu efallai mewn perygl o gam-drin o'r fath; neu

(c) yn y fath fodd ag i ddatgelu lefelau cyrhaeddiad ac unrhyw ganlyniadau unrhyw ddisgybl arall a enwyd mewn unrhyw darged cyrhaeddiad neu bwnc.

(4) Yn y rheoliad hwn mae "cam-drin plant" yn cynnwys anafu plentyn yn gorfforol (ac eithrio drwy ddamwain) ac mae'n cynnwys ei esgeuluso'n gorfforol

of the report in which the information referred to in sub-paragraphs (a) and (c) of paragraph (2) is made available, must provide for signature by a teacher who is familiar with the pupil and that pupil's achievements.

(4) The report in paragraph (1) must be made available to the pupil not later than 30 September following the end of the school year during or at the end of which the pupil left the school.

**Restrictions on provision of information**

**6**.—(1) The provisions of paragraph (2) apply to the information specified in paragraph 6(1) of the Schedule.

(2) Nothing in regulation 3 requires the making available of any information—

(a) originating from or supplied by or on behalf of any person other than—

(i) an employee of the local authority which maintains the school;

(ii) in the case of a voluntary aided school, a teacher or other employee at the school (including an educational psychologist engaged by the governing body under a contract for services);

(iii) an education welfare officer;

(iv) the person requesting disclosure; or

(b) to the extent that it would reveal, or enable to be deduced, the identity of a person (other than the pupil to whom that information relates or a person mentioned in sub-paragraph (a)) as the source of the information or as a person to whom that information relates.

(3) Nothing in these Regulations requires the making available of any information—

(a) to the extent that disclosure would in the opinion of the head teacher be likely to cause serious harm to the physical or mental health or emotional condition of the pupil to whom the information relates or of any other person;

(b) to the extent that in the opinion of the head teacher it is relevant to the question whether the pupil to which it relates is or has been the subject of or may be at risk of child abuse; or

(c) so as to disclose the levels of attainment and any other results in any attainment target or subject of any other identified pupil.

(4) In this regulation "child abuse" includes physical (other than accidental) injury to, and physical or emotional neglect, ill-treatment or sexual abuse of, a

neu'n emosiynol, ei drin yn wael neu ei gam-drin yn rhywiol.

child.

**Cyfieithu gwybodaeth a dogfennau**

**7**.—(1) Os yw'n ymddangos yn angenrheidiol i bennaeth unrhyw ysgol y dylai unrhyw ddogfen neu wybodaeth, y mae'n ofynnol iddi fod ar gael o dan y Rheoliadau hyn ac sydd wedi'i darparu yn Gymraeg, gael ei chyfieithu i'r Saesneg, rhaid ei chyfieithu felly, a bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ddogfen neu'r wybodaeth a gyfieithwyd felly fel y maent yn gymwys i'r ddogfen neu'r wybodaeth wreiddiol.

(2) Os yw'n ymddangos yn angenrheidiol i bennaeth unrhyw ysgol y dylai unrhyw ddogfen neu wybodaeth, y mae'n ofynnol iddi fod ar gael o dan y Rheoliadau hyn ac sydd wedi'i darparu yn Saesneg, gael ei chyfieithu i'r Gymraeg, rhaid ei chyfieithu felly, a bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ddogfen neu'r wybodaeth a gyfieithwyd felly fel y maent yn gymwys i'r ddogfen neu'r wybodaeth wreiddiol.

(3) Os yw'n ymddangos yn angenrheidiol i bennaeth unrhyw ysgol y dylai unrhyw ddogfen neu wybodaeth, y mae'n ofynnol iddi fod ar gael o dan y Rheoliadau hyn, gael ei chyfieithu i iaith ac eithrio Cymraeg neu Saesneg, neu y dylai'r ddogfen neu'r wybodaeth fod ar gael ar ffurf Braille neu dâp sain, rhaid ei chyfieithu felly neu ei chynhyrchu mewn Braille neu ar dâp sain, yn ôl y digwydd, a bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ddogfen a gyfieithwyd, yr wybodaeth a gyfieithwyd, y fersiwn Braille neu'r fersiwn sain fel y maent yn gymwys i'r ddogfen neu'r wybodaeth wreiddiol.

(4) Rhaid peidio â chodi unrhyw dâl am gopi o unrhyw wybodaeth a gyfieithwyd neu a gynhyrchwyd yn unol â pharagraffau (1), (2) neu (3), ond pan fo ffi yn cael ei chodi am gopi o ddogfen wreiddiol, rhaid peidio â chodi unrhyw ffi uwch am gopi o'r ddogfen a gyfieithwyd neu a gynhyrchwyd felly.

**Translation of information and documents**

**7**.—(1) If it appears necessary to the head teacher of any school that any document or information required to be made available under these Regulations which is provided in Welsh should be translated into English, it must be so translated and these Regulations are to apply to the document or information so translated as they apply to the original document or information.

(2) If it appears necessary to the head teacher of any school that any document or information required to be made available under these Regulations which is provided in English should be translated into Welsh, it must be so translated and these Regulations are to apply to the document or information so translated as they apply to the original document or information.

(3) If it appears necessary to the head teacher of any school that any document or information required to be made available under these Regulations should be translated into a language other than English or Welsh or that a Braille or audio tape version of such a document or information should be available, it must be so translated or produced in Braille or audio tape, as the case may be, and these Regulations are to apply to the translated document, information, Braille or audio version as they apply to the original document or information.

(4) No charge must be made for a copy of any information translated or produced in accordance with paragraphs (1), (2) or (3), but where a charge is made for a copy of an original document no greater charge is to be made for a copy of the document so translated or produced.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

29 Gorffennaf 2011

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

29 July 2011

# YR ATODLEN

Rheoliad 3(3)

## GWYBODAETH AM DDISGYBLION UNIGOL

### RHAN 1

**Cyfnod Sylfaen**

**1**.—(1) Mewn perthynas â phob maes dysgu perthnasol, disgrifiad byr o ddeilliant cyfnod sylfaen a gyrhaeddodd y disgybl ym mhob un o'r meysydd dysgu hynny, ym mlwyddyn olaf y cyfnod sylfaen.

(2) Mewn perthynas â phob un o'r meysydd dysgu eraill, datganiad byr o lefel cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan y disgybl ym mhob un o'r meysydd dysgu hynny ym mlwyddyn olaf y cyfnod sylfaen.

**Disgyblion yng nghyfnod allweddol dau**

**2**.—(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl mewn pwnc a chanlyniadau asesiad athrawon o lefel gyrhaeddiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad ym mlwyddyn olaf cyfnod allweddol dau mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg.

(2) Datganiad byr ynghylch a yw'r disgybl wedi cyflawni'r dangosydd pynciau craidd.

(3) Bydd disgybl yng nghyfnod allweddol dau yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd os yw'n cyflawni lefel CC 4 neu'n uwch na hynny mewn—

(a) Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, yn ôl y cwricwlwm a ddysgwyd i'r disgybl;

(b) mathemateg; ac

(c) gwyddoniaeth.

(4) Disgrifiad byr o'r hyn y mae canlyniadau'r disgybl, yr adroddwyd arnynt yn unol ag is-baragraff (1), yn ei ddangos am gynnydd y disgybl yn y pynciau perthnasol yn unigol ac mewn perthynas â phlant eraill yn yr un flwyddyn o'r cyfnod allweddol, a hwnnw'n ddisgrifiad sy'n tynnu sylw at unrhyw gryfderau a gwendidau penodol sydd gan y disgybl.

**Disgyblion yng nghyfnod allweddol tri**

**3**.—(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl mewn pwnc a chanlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad ym mlwyddyn olaf cyfnod allweddol tri mewn—

(a) Cymraeg ail iaith a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Saesneg, yn unol â'r cwricwlwm a ddysgwyd i'r disgybl;

(b) mathemateg;

# SCHEDULE

Regulation 3(3)

## INFORMATION ABOUT INDIVIDUAL PUPILS

### PART 1

**Foundation Phase**

**1**.—(1) In relation to each relevant area of learning a brief description of each foundation phase outcome attained by the pupil in each of those relevant areas of learning in the final year of the foundation phase.

(2) In relation to all other areas of learning a brief statement of the pupil's level of attainment achieved by the pupil in each of those areas of learning in the final year of the foundation phase.

**Pupils in the second key stage**

**2**.—(1) The results of teacher assessment of the pupil's subject level of attainment and the results of teacher assessment of the pupil's level of attainment in each attainment target in the final year of the second key stage in Welsh first language and English.

(2) A brief statement on whether the pupil has achieved the core subject indicator.

(3) A pupil in the second key stage will achieve the core subject indicator if they achieve NC level 4 or above in—

(a) English or Welsh first language, according to the curriculum the pupil has been taught;

(b) mathematics; and

(c) science.

(4) A brief account of what the pupil's results reported pursuant to sub-paragraph (1) show about the pupil's progress in the relevant subjects individually and in relation to other children in the same year of the key stage which draws attention to any particular strengths and weaknesses of the pupil.

**Pupils in the third key stage**

**3**.—(1) The results of teacher assessment of the pupil's subject level of attainment and the results of teacher assessment of the pupil's level of attainment in each attainment target in the final year of the third key stage in—

(a) English and Welsh second language or Welsh first language and English, according to the curriculum the pupil has been taught;

(b) mathematics;

(c) gwyddoniaeth; ac

(ch) y pynciau perthnasol.

(2) Datganiad byr ynghylch a yw'r disgybl wedi cyflawni'r dangosydd pynciau craidd.

(3) Bydd disgybl yng nghyfnod allweddol tri yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd os yw'n cyflawni lefel CC 5 neu uwchlaw hynny mewn—

(a) Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, yn unol â'r cwricwlwm a ddysgwyd i'r disgybl;

(b) mathemateg; ac

(c) gwyddoniaeth.

(4) Disgrifiad byr o'r hyn y mae canlyniadau'r disgybl, yr adroddwyd arnynt yn unol ag is-baragraff (1), yn ei ddangos am gynnydd y disgybl yn y pynciau perthnasol yn unigol ac mewn perthynas â phlant eraill yn yr un flwyddyn o'r cyfnod allweddol, a hwnnw'n ddisgrifiad sy'n tynnu sylw at unrhyw gryfderau a gwendidau penodol sydd gan y disgybl.

**Disgyblion yng nghyfnod allweddol pedwar**

**4**.—(1) Enw unrhyw bwnc y cofnodwyd enw disgybl ar ei gyfer o ran cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd a'r radd (os oes un) a gafwyd.

(2) Nifer cyfartalog y pwyntiau a gafodd y disgybl mewn arholiadau pwnc o'r fath y cofnodwyd ei enw ar eu cyfer.

(3) At ddibenion y paragraff hwn rhaid penderfynu unrhyw gwestiwn ynghylch y pwyntiau a dyrannwyd i bob cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd yn unol â'r gofrestr.

**RHAN 2**

**Disgyblion mewn unrhyw gyfnod allweddol**

**5**.—(1) O ran yr holl bynciau sylfaen, manylion byr am gyflawniadau'r disgybl mewn perthynas â phob pwnc gan dynnu sylw at unrhyw gryfderau a gwendidau penodol, ar y cyd, pan fo'r manylion yn cynnwys lefelau, â datganiad sy'n dangos a yw'r lefelau hynny wedi eu penderfynu'n unol â'r asesiadau statudol ai peidio.

(2) Manylion unrhyw bwnc y mae'r disgybl yn esempt rhagddo.

**RHAN 3**

**Disgyblion y cofnodwyd eu henwau ar gyfer cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd**

**6**.—(1) Enw unrhyw bwnc y cofnodwyd enw'r disgybl ar ei gyfer mewn cysylltiad â chymhwyster perthnasol a gymeradwywyd a'r radd (os oes un) a gafwyd.

(c) science; and

(d) the relevant subjects.

(2) A brief statement on whether the pupil has achieved the core subject indicator.

(3) A pupil in the third key stage will achieve the core subject indicator if they achieve NC level 5 or above in—

(a) English or Welsh first language, according to the curriculum the pupil has been taught;

(b) mathematics; and

(c) science.

(4) A brief account of what the pupil's results reported pursuant to sub-paragraph (1) show about the pupil's progress in the relevant subjects individually and in relation to other children in the same year of the key stage which draws attention to any particular strengths and weaknesses of the pupil.

**Pupils in the fourth key stage**

**4**.—(1) The name of any subject in which the pupil was entered in respect of an approved relevant qualification and the grade (if any) achieved.

(2) The average number of points scored by the pupil in such subject examinations entered by the pupil.

(3) For the purposes of this paragraph any question as to the points allocated to each approved relevant qualification must be determined in accordance with the register.

**PART 2**

**Pupils in any key stage**

**5**.—(1) In relation to all foundation subjects, brief particulars of the pupil's achievements in relation to each subject drawing attention to any particular strengths and weaknesses, together with, where the particulars include levels, a statement indicating whether or not those levels have been determined in accordance with the statutory assessments.

(2) Particulars of any subject from which the pupil is exempt.

**PART 3**

**Pupils entered for an approved relevant qualification**

**6**.—(1) The name of any subject in which the pupil was entered in respect of an approved relevant qualification and the grade (if any) achieved.

(2) Nifer cyfartalog y pwyntiau a gafodd y disgybl mewn arholiadau pwnc o'r fath y cofnodwyd ei enw ar eu cyfer.

(3) At ddibenion y paragraff hwn rhaid penderfynu unrhyw gwestiwn ynghylch y pwyntiau a dyrannwyd i bob cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd yn unol â'r gofrestr.

## RHAN 4

### Pob disgybl

**7.**—(1) Manylion byr am gyflawniadau'r disgybl mewn unrhyw faes dysgu, unrhyw bwnc neu weithgaredd, gan gynnwys Tystysgrif Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, a'r rheini'n gyflawniadau nas crybwyllir yn unman arall yn yr Atodlen hon sy'n rhan o'r cwricwlwm ysgol ac am sgiliau a galluoedd y disgybl ac ynghylch cynnydd cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef.

(2) Manylion y trefniadau y caniateir trafod yr adroddiad odanynt gydag athrawon y disgybl gan riant y disgybl neu, yn achos disgybl sy'n 18 oed neu drosodd, gan y disgybl.

(3) Manylion unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd neu unrhyw uned neu gredyd tuag at gymhwyster o'r fath a gafodd y disgybl yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi ac na chyfeiriwyd ato yn rhywle arall yn yr Atodlen hon.

(4) Crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef yn dangos nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig (o fewn ystyr Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**1**)) a nifer y presenoldebau posibl.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(**1**) O.S. 2010/1954 (Cy. 187).

(2) The average number of points scored by the pupil in such subject examinations entered by the pupil.

(3) For the purposes of this paragraph any question as to the points allocated to each approved relevant qualification must be determined in accordance with the register.

## PART 4

### All pupils

**7.**—(1) Brief particulars of the pupil's achievements in any area of learning, subject or activity, including the Welsh Baccalaureate Qualification Core Certificate, not mentioned elsewhere in this Schedule which forms part of the school curriculum and of the pupil's skills and abilities and about the pupil's general progress at school during the period to which the information relates.

(2) Particulars of the arrangements under which the report may be discussed with the pupil's teachers by the pupil's parent or, in the case of a pupil aged 18 or over, the pupil.

(3) Details of any approved relevant qualification or any unit or credit towards such qualification obtained by the pupil during the period to which the information relates which is not referred to elsewhere in this Schedule.

(4) A summary of the pupil's attendance record during the period to which information relates showing the number of authorised and unauthorised absences (within the meaning of the Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010(**1**)) and the number of possible attendances.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) S.I. 2010/1954 (W.187).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1943 (Cy.210)

# ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1943 (W.210)

# EDUCATION, WALES

The Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011

£5.75

W1016/08/11 ON